**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**'MATERION GWEITHREDU AILFEDDWL AM ADEILADU'**

## Diben

1. Diben yr adroddiad yw:

a. rhoi adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 'Materion Gweithredu Ailfeddwl am Adeiladu' yn dilyn trafodaeth ar yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 10 Gorffennaf 2001.

b) gofyn i'r Pwyllgor gefnogi cynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

## Argymhelliad

2. Argymhellir y Pwyllgor i:

a. roi sêl ei fendith ar y cynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ym mharagraff 13

b) gofyn am adroddiad ar y cynnydd a wnaed ym Mawrth 2003

## Amserlen

3. Cyflwynir yr adroddiad i wahodd y Pwyllgor i gefnogi'r cynigion ar gyfer rhoi Ailfeddwl am Adeiladu ar waith ac arfer gorau ym maes caffael gwaith adeiladu ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Cefndir

### Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai 12-02

4. Yng nghyrfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 10 Gorffennaf 2002, rhoddodd y

Gweinidog y manylion diweddaraf i'r Pwyllgor ar yr hyn a wnaed i hyrwyddo Ailfeddwl am Adeiladu yng Nghymru.

Dywedodd y Gweinidog y byddai'n dod â phapur "ar weithredu Ailfeddwl am Adeiladu, gan ddwyn ynghyd y gwahanol haenau ar draws pob un o bortffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru."

Cyn hynny, roedd y Pwyllgor wedi rhoi sêl ei fendith i'r farn y bydd rhoi Ailfeddwl am Adeiladu ar waith ym maes caffael gwaith adeiladu yn y sector cyhoeddus yn helpu i gyflawni amcan y Cynulliad o wella ansawdd a chost-effeithiolrwydd ei fuddsoddiad ac yn helpu i ddarparu prosiectau cynaliadwy sy'n rhoi 'gwerth gorau'.

**Ailfeddwl am Adeiladu**

5. Roedd Adroddiad Egan ‘Rethinking Construction’ yn argymell ymrwymiad i wella'r broses adeiladu yn barhaus, gan gynnwys y gadwyn gyflenwi gyfan. Ers ei gyhoeddi, aed ag agenda Ailfeddwl am Adeiladu yn ei blaen trwy bartneriaeth ddeinamig rhwng y llywodraeth, cleientiaid a'r diwydiant. Ceir mwy o wybodaeth am weithgareddau presennol yn Atodiad A.

Polisi'r Llywodraeth yw cael pob Adran Noddi a phob Corff Cyhoeddus Anadrannol i roi egwyddorion Ailfeddwl am Adeiladu ar waith yn llawn erbyn 2003-4. Cadarnhaodd yr Adran Diwydiant a Masnach y bydd yn ariannu'r rhaglen Ailfeddwl am Adeiladu hyd at Fawrth 2004.

**Canllawiau Arfer Gorau**

6. Cyhoeddir Canllawiau Arfer Gorau gan Swyddfa Fasnachu'r Llywodraeth (OGC) ar ran y llywodraeth ganolog a chan Ailfeddwl am Adeiladu ar ran sectorau cyhoeddus a phreifat y diwydiant adeiladu; ceir mwy o wybodaeth am y canllawiau arfer gorau cyfredol yn Atodiad B.

## <u>Ystyriaeth</u>

**Y Sefyllfa Bresennol**

7. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i hyrwyddo Ailfeddwl am Adeiladu ac i sicrhau bod prosiectau a noddir gan y Cynulliad yn defnyddio'r arfer caffael gorau, yn unol â'i amcanion a'i rwymedigaethau polisi cyffredinol o dan ei Goncordat gyda'r OCG.

8. Yr Is-adrannau noddi unigol a chyrff unigol yn y sector cyhoeddus fydd yn gyfrifol am gyhoeddi canllawiau ynghylch prosiectau adeiladu a noddir gan y Cynulliad. Mae'r graddau y llwyddwyd i roi canllawiau arfer gorau ac Ailfeddwl am Adeiladu ar waith yn amrywio a cheir gwybodaeth fanylach am hyn yn Atodiad C.

9. Er bod y tîm Ailfeddwl am Adeiladu a noddir gan yr Adran Diwydiant a Masnach a Swyddfa Fasnachu'r Trysorlys yn cyhoeddi digonedd o ganllawiau arfer gorau cynhwysfawr, nid yw'r Cynulliad yn eu cyhoeddi'n ffurfiol. Mae dryswch ar sawl lefel yn y sector cyhoeddus ynghylch statws y canllawiau hyn a'u perthnasedd i bolisïau, gofynion a disgwyliadau'r Cynulliad o ran buddsoddi ym maes caffael gwaith adeiladu yn y sector cyhoeddus.

10. Nid oes un Adran o fewn Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am roi cyngor neu gyfarwyddyd i'r perwyl hwn. Nid yw Fforwm Adeiladu y Cynulliad wedi'i sefydlu i roi cyngor o'r fath ac nid oes ganddo'r adnoddau i wneud hynny ychwaith.

**Yr hyn sydd angen ei wneud**

11. Mae'r angen am Ganllaw wedi'i ysgogi gan ddatblygiadau a chynlluniau yn y diwydiant adeiladu yn ddiweddar sydd wedi rhoi cryn bwyslais ar rôl y Cleient yn y broses o sicrhau rhagoriaeth wrth gaffael cynnyrch a gwasanaethau, ac o sicrhau y caiff amcanion eu cyflawni'n llawn ac y ceir gwerth am arian. Mae cyrff yn y diwydiant adeiladu ynghyd â'r Llywodraeth wedi cyhoeddi nifer helaeth o ganllawiau strategol a gweithdrefnol. Gall swmp y canllawiau sydd ar gael beri dryswch, nid yn unig i'r rhai sy'n ymwneud yn rheolaidd â'r maes adeiladu, ond hefyd i'r rhai sy'n gweithredu o bryd i'w gilydd fel Cleientiaid ar gyfer prosiect adeiladu mawr.

Mae angen i'r Cynulliad roi cyfarwyddyd cliriach a mwy cydlynus i'w Is-adrannau noddi, Awdurdodau Lleol, Cyrff a Noddir ganddo a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus o'i ddisgwyliadau o ran sicrhau arfer gorau wrth gaffael prosiectau adeiladu a noddir gan y Cynulliad. Dylai'r cyfarwyddyd ddwyn y prif egwyddorion polisi a chanllawiau arfer gorau o du'r Llywodraeth a'r diwydiant ynghyd.

12. I gefnogi'r cyfarwyddyd hwn gan y Cynulliad, efallai y bydd angen trefnu gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ynghyd â lledaenu gwybodaeth ac arweiniad ar arfer gorau cyfredol i gyrff yn y sector cyhoeddus; efallai y gallai hyn fod yn rhan o weithgaredd presennol Tîm Menter Caffael Cymru a Thîm Menter Caffael Llywodraeth Leol.

**Cynigion ar gyfer Gweithredu yn y Dyfodol**

13. Cynigir bod:

a. Llywodraeth y Cynulliad, drwy'r Uned Gaffael a chyda cymorth Fforwm Adeiladu y Cynulliad, yn paratoi Canllawiau Arfer Gorau Caffael Adeiladu gan roi cyfeiriad cyffredinol y prosiectau adeiladu a noddir gan y Cynulliad y bydd y Cynulliad yn disgwyl buddsoddi ynddynt. Bydd Is-adrannau unigol sy'n noddi a'r cyrff a noddir yn gyfrifol am ddatblygu a rhoi eu prosesau caffael gwasanaethau adeiladu ar waith.
b. Y Canllaw yn cael ei gyhoeddi fel rhan o Lawlyfr Caffael Llywodraeth y Cynulliad a'i roi ar wefan 'Winning Our Business' ar www.winningourbusiness.gov.uk.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i gyllidebau cyfredol nag arfaethedig y Cynulliad. Bydd y gwaith sy'n ymwneud â'r cynigion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ym mharagraff 13 yn cael ei gynnwys yn y cyllidebau costau gweinyddu cyfredol ac arfaethedig.

**Cydymffurfio**

15. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb. Yn unol ag FN1/01 nid oes angen i'r cyflwyniad hwn gael caniatâd Swyddfa Gydymffurfio'r Cynulliad ymlaen llaw, ond anfonir copi ohono i Flwch Postio'r Swyddfa Gydymffurfio at ddibenion monitro.

**Themâu trawsbynciol**

16. Bydd hyrwyddo a rhoi egwyddorion 'Ailfeddwl am Adeiladu' ym maes caffael gwaith adeiladu yng Nghymru yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion polisïau'r Cynulliad ar gyfer Gwell Cymru, yn benodol y rheini sy'n ymwneud â Gwell Ansawdd Bywyd, Datblygu Economaidd a Datblygu Cynaliadwy.

17. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Cynaliadwy sy'n golygu bod yn rhaid

glynu wrth egwyddorion datblygu cynaliadwy yn holl waith y Cynulliad, gan ofyn am newid diwylliant ac arferion gweithio. Gall y diwydiant adeiladu wneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu cynaliadwy ac mae Ailfeddwl am Adeiladu yn helpu'r diwydiant i ddod yn fwy cynaliadwy drwy ymdrin â phynciau fel gwastraff, llygredd, ansawdd a boddhad y defnyddiwr.

**Camau i'w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

18. Nodi cynnwys yr adroddiad a chefnogi'r argymhelliad.

**Man Cyswllt**

**Y Gyfarwyddiaeth Dai / Cangen Adeiladwaith ac Ynni Domestig**

**Ian Layzell x 6914**